Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwr yr Ystad

Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2016-17















llyw.cymru

# Rhagair



Mark Drakeford

Mae'r rhaglen lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen* ynghyd â *Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar*, yn cyflwyno ein huchelgais i sicrhau newid gwirioneddol a chynaliadwy yng Nghymru erbyn 2021. Mae hynny'n digwydd yn ystod y cyfnod hiraf o gyni ariannol o fewn cof a'r ansicrwydd ariannol a achoswyd gan y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Yn erbyn y cefndir cyllidol hwn, mae'n bwysig ein bod yn defnyddio ein holl adnoddau allweddol yn effeithiol, gan gynnwys yr ystad weinyddol.

Mae'r *Strategaeth Leoli* (2015-20) yn cyflwyno'r rhaglen ar gyfer newid, sy'n cynnwys darparu ystad sy'n gallu cefnogi ein hanghenion busnes mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, a sicrhau amgylchedd gwaith iach a chynaliadwy. Hefyd, mae'n cynnal ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn lleoliadau ledled Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol, *Cyflwr yr Ystad* yn crynhoi ein cynnydd tuag at gyflawni'r nodau hyn. Mae perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn set o ddangosyddion sy'n mesur cost, lle a pherfformiad amgylcheddol, ystad gyhoeddus ehangach y DU, ac amcanion y *Strategaeth Leoli*.

Rydym wedi wynebu nifer o heriau cost sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ond rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r amcanion mwy hirdymor. Er bod y gost o gynnal yr ystad wedi cynyddu, rydym yn parhau i berfformio'n dda o'i gymharu ag ystadau gweinyddol y DU a'r Alban.

Mae ein dull o wella cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol yr ystad weinyddol yn parhau i fod yn llwyddiannus. Rydym wedi lleihau costau 10% ac wedi lleihau allyriadau $CO_2$ drwy gyflwyno systemau rheoli ynni newydd. Mae allyriadau $CO_2$ 51% yn is na'r gwaelodlin yn 2010-11 – sy'n rhagori ar y targed o 30% ar gyfer y flwyddyn 2020. Bydd lleihau allyriadau carbon yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a bydd yn cynnwys technolegau adnewyddadwy lle bo hynny'n briodol.

Rydym yn gwybod y bydd ein gofynion trefniadol yn parhau i newid yn y dyfodol, ac un o'r prif resymau yw'r broses o ymadael â'r UE. Mae'r *Strategaeth Leoli* yn cydnabod nad yw rhagolygon busnes yn aros yn eu hunfan, ac mae'r dull gweithredu yn ceisio sicrhau bod yr ystad yn parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i ofynion y dyfodol.

Mae cynllun peilot Hybu Hyblygrwydd Merthyr Tudful yn dangos ein hymrwymiad i'r nodau llesiant. Mae staff wedi cael y cyfle i flasu dulliau gweithio gwahanol ledled ystad wasgaredig, gan wella cynhyrchiant a'r cydbwysedd rhwng y cartref a'r gwaith heb effeithio'n wael ar ddarparu gwasanaethau. Mae gwerthusiad o'r cynllun peilot wedi dangos bod dulliau gweithio mwy ystwyth yn hanfodol i sicrhau ystad effeithlon ac effeithiol, a bydd pecyn gweithio hyblyg gwell yn cael ei gyflwyno ledled Llywodraeth Cymru dros y misoedd nesaf.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y *Strategaeth Leoli* bresennol, mae nifer o newidiadau pwysig wedi'u cyflwyno i'r ystad a'r defnydd ohoni. Mae'r amcanion ar gyfer ystad lai o ran maint, llai costus a chynaliadwy yn briodol o hyd – maent yn heriol ond yn gyraeddadwy. Byddwn yn sicrhau bod yr ystad weinyddol yn cael ei rheoli yn unol â chyllidebau'r dyfodol, fel bod modd i ni ddefnyddio ein hadnoddau yn y meysydd priodol er mwyn cyflawni ein prif amcan, sef creu Cymru well a mwy ffyniannus.

# Cynnwys


Rhagair 2

1. Cyflwyniad 4
   - 1.1 Ynglŷn â'r Adroddiad hwn 4
   - 1.2 Trosolwg 5
     - a) Effeithlonrwydd 5
     - b) Mynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd a Pherfformiad Amgylcheddol 6
   - 1.3 Mesur Perfformiad 6
   - 1.4 Crynodeb o Berfformiad 7

2. Maint Yr Ystad 9
   - 2.1 Nifer y Daliadau 9
   - 2.2 Cyfanswm yr Arwynebedd Llawr 9

3. Costau 10
   - 3.1 Cost yr Ystad 10

4. Effeithlonrwydd 12
   - 4.1 Meincnodi 12
   - 4.2 Cost fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn 13
   - 4.3 Cost fesul metr sgwâr 13
   - 4.4 Effeithlonrwydd o ran Lle 14
   - 4.5 Adborth gan ein Staff 14

5. Perfformiad Amgylcheddol 15
   - 5.1 Rheoli a Lleihau Carbon 15
   - 5.2 Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC) 16
   - 5.3 Rheoli Dŵr 16
   - 5.4 Rheoli Gwastraff 17
   - 5.5 Gwella Bioamrywiaeth 17

6. Rhagolwg 2017-18 19

7. Presenoldeb Llywodraeth Cymru Dramor 2016-17 20
   - 7.1 Gwaith y Swyddfeydd Tramor 20
   - 7.2 Yr Ystad Dramor 20
   - 7.3 Edrych i'r dyfodol 21

Atodiadau

Atodiad 1 – Crynodeb o'r Data Eiddo Gwreiddiol 22
Atodiad 2 – Arbedion Blynyddol o Eiddo a Adawyd 24
Atodiad 3 – Trosolwg Rhanbarthol 25
Atodiad 4 – Crynodeb o Berfformiad 2012-2017 26
Atodiad 5 – Astudiaeth Achos – Cynllun Peilot Hybu Hyblygrwydd 27
Atodiad 6 – Astudiaeth Achos: Sicrhau Effeithlonrwydd a Chyflwyno Ynni Adnewyddadwy 30
Atodiad 7 – Eiddo y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn 32


OGL ISBN digidol 978-1-78859-025-9 ISBN argraffu 978-1-78859-024-2 © Hawlfraint y Goron 2017 WG33199

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Ynglŷn â'r Adroddiad hwn

Hwn yw nawfed adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gyflwr yr Ystad. Mae'n darparu asesiad o berfformiad yr ystad weinyddol o ran effeithlonrwydd a'r amgylchedd yn ystod 2016-17 yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, perfformiad hanesyddol, sefydliadau tebyg yn y sector cyhoeddus a thargedau ac amcanion Strategaeth Leoli 2015-2020.

Nod cyffredinol y Strategaeth Leoli yw darparu ystad gynaliadwy, cost effeithiol o ansawdd uchel yn y lleoliadau cywir er mwyn cefnogi gweithrediadau busnes Llywodraeth Cymru. Mae'r Strategaeth yn nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2015-2020:

- ystad wasgaredig yn y lleoliadau cywir, sy'n cynnwys llai o adeiladau, sydd wedi eu gwella'n sylweddol o ran ansawdd a pherfformiad
- amgylcheddau gwaith modern, hyblyg a chefnogol sydd â'r dechnoleg gywir i alluogi staff i weithio'n effeithlon
- llai o gostau gweithredu sy'n adlewyrchu'r heriau ariannol cynyddol
- ad-drefnu'r ystad swyddfeydd i greu 15 o swyddfeydd craidd a gweithredol o lai na 70,000 metr sgwâr.

Dyma'r egwyddorion arweiniol a ddefnyddir fel y prif amcanion strategol sy'n sail i'r nodau hyn:

- ystad sy'n cefnogi anghenion a nodau busnes Llywodraeth Cymru, gan sicrhau presenoldeb gwasgaredig a chyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru
- ad-drefnu a chrynhoi ein defnydd o'r ystad mewn swyddfeydd craidd lle ceir cynllun gweithle modern, effeithlon a chyson i ateb galwadau sy'n newid, a hynny am y gost orau bosibl
- mabwysiadu arferion gweithio hyblyg a thechnolegau ategol ledled yr ystad er mwyn darparu 8 gweithfan i bob 10 aelod o staff ar gyfartaledd (8:10)
- gweithleoedd saff, diogel, iach sy'n cydymffurfio ac sy'n dangos llai o effaith amgylcheddol a llai o gostau gweithredu.

Mae'r Strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â heriau fel gwneud y defnydd gorau posibl o le a gwella perfformiad amgylcheddol. Hefyd, mae'n ceisio gwneud arbedion gweithredol sylweddol a gwella effeithiolrwydd gweithredol ledled Cymru gyfan.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyfrannu at y gwaith o gyflawni saith nod llesiant, sy'n ceisio creu:

- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog
- Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r ystad wasgaredig yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcanion hyn drwy gefnogi cyflogaeth ranbarthol a sicrhau bod modd darparu gwasanaethau effeithiol drwy Gymru gyfan.

Mae'r Strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol[1], er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gydnaws ag anghenion busnes yn y dyfodol a bod yr ystad yn gallu ymateb yn gyflym i newid. Mae ad-drefnu'r ystad yn cynnwys cau swyddfeydd, a bydd achos busnes yn cael ei baratoi a chynhelir ymgynghoriad staff ar yr amser perthnasol cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Mae gweddill yr adran hon o'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r ystad yn nhermau effeithlonrwydd, perfformiad amgylcheddol, dangosyddion perfformiad allweddol a chrynodeb o berfformiad ariannol ac amgylcheddol yr ystad yn 2016-17.

Mae dwy astudiaeth achos, sef cynllun peilot Hybu Hyblygrwydd swyddfa Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, a phrosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, wedi'u cynnwys yn Atodiad 5 a 6.

## 1.2 Trosolwg

### a) Effeithlonrwydd

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y 22 o swyddfeydd craidd ledled Cymru oedd yn rhan o ystad weinyddol Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2017.

Nid yw 8 eiddo arbenigol ychwanegol, gan gynnwys storfeydd, canolfannau rheoli traffig a'r pafiliwn ar faes y Sioe Frenhinol, wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o gost ac effeithlonrwydd yn yr adroddiad hwn. Mae Atodiad 7 yn cynnwys manylion maint a chost flynyddol yr eiddo hwn. Mae ffigurau carbon yn ymwneud â'r eiddo wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ym mhwynt 1.4 ac Adran 5.

Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru ystad dramor o 15 eiddo, ac nid yw'r rhain wedi'u dadansoddi yn yr adroddiad hwn chwaith. Rhestrir yr eiddo yn Adran 7.

Mae gan yr ystad weithlu o 5,449[2] o aelodau staff a chontractwyr Cyfwerth ag Amser Llawn mewn 22 o swyddfeydd, ac arwynebedd llawr o 82,275 metr sgwâr. Roedd costau cynnal yr ystad yn 2016-17 yn £18.417 miliwn. Mae crynodeb o ddata eiddo ar gyfer y swyddfeydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

Mae'r Strategaeth Leoli yn ceisio lleihau'r swyddfeydd a ddefnyddir i lai na 70,000 metr sgwâr, sef gostyngiad o 12,275 metr sgwâr erbyn 31 Mawrth 2020. Y bwriad yw gwneud arbedion gros bras, gan anwybyddu effaith chwyddiant, o tua £3.46 miliwn ac arbedion costau cynnal o tua £2.52 miliwn y flwyddyn ar ôl 2020. Rydym ar ein ffordd i ragori ar y ddau ffigur hyn ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r Strategaeth yn nodi'r posibilrwydd o sicrhau derbyniadau cyfalaf o rydd-ddaliadau a waredwyd.

1 Mae'r Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol yn cynnwys cynrychiolaeth adrannol i adolygu'r Strategaeth Leoli yn erbyn yr anghenion busnes sy'n codi gan Lywodraeth Cymru. Rôl y Grŵp yw darparu cyngor. Yn ogystal, rhaid i bob cais newydd ynglŷn â llety gael ei drafod drwyddo. Mae'r broses o gyfeirio dyheadau ynghylch eiddo at y Grŵp yn sicrhau cysondeb, cydgyfeiriant polisïau a'r gwerth gorau.

2 Mae'r oriau a weithir gan staff rhan-amser yn cael eu cyfuno i gael nifer cyfwerth o swydd llawn amser.

Disgwylir y bydd canolbwyntio ar fuddsoddi mewn gwariant ataliol a dulliau gweithio mwy hyblyg yn cyfrannu at sicrhau effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae astudiaeth achos cynllun peilot Hybu Hyblygrwydd yn enghraifft o fuddsoddiad rhagweithiol o'r fath.

### b) Mynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd a Pherfformiad Amgylcheddol

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod safon uchel o berfformiad amgylcheddol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi bod angen o leiaf 80% yn llai o allyriadau yn gyffredinol erbyn 2050. Ar 31 Mawrth 2017 roeddem wedi sicrhau gostyngiad o 51% ers blwyddyn sylfaenol 2010-11. Rydym wedi defnyddio 11.25% yn llai o ddŵr, ac mae allyriadau carbon o nwy a thrydan wedi gostwng 9.8% ledled yr ystad weinyddol dros gyfnod yr adroddiad hwn. Cafodd 11.04% yn fwy o wastraff ei greu, cafodd llai o wastraff ei anfon i safleoedd tirlenwi, ond cynyddodd cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu o 78% i 81.5%.

Mae lleihau ein heffaith amgylcheddol yn flaenoriaeth o hyd, a'r nod yw parhau i sicrhau bod yr ystad yn gweithredu mewn modd sy'n fwyfwy cynaliadwy ac effeithlon. Ar ôl gwneud cynnydd sylweddol drwy leihau maint yr ystad a chyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni, rydym bellach yn canolbwyntio ar fanteision sy'n gallu deillio o atebion rheoli ynni technolegol ac ynni adnewyddadwy. Mae'r astudiaeth achos yn Atodiad 6 yn nodi rhai o'r llwyddiannau ym maes perfformiad amgylcheddol yn 2016-17.

## 1.3 Mesur Perfformiad

Mae perfformiad ein hystad yn canolbwyntio ar gyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n mesur:

- newidiadau ym maint cyffredinol a chyfanswm cost cynnal yr ystad
- gwelliannau i effeithlonrwydd gweithleoedd wedi'u mynegi ar ffurf £/FTE
- y defnydd o'r lle a feddiannir wedi'i fynegi ar ffurf metr sgwâr/FTE
- sgoriau Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC)
- perfformiad amgylcheddol yn erbyn amcanion a thargedau ar gyfer allyriadau $CO_2$ cynhyrchu gwastraff, ailgylchu gwastraff a defnydd dŵr.

## 1.4 Crynodeb o Berfformiad

Mae'r tablau canlynol yn dangos perfformiad yn erbyn 2015-16 a thargedau 2020.

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | % Newid | Sgôr | Targedau 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad (metr sgwâr) | 81,888 | 82,275 | +0.47% | ▲ | 70,000 |
| Nifer yr Eiddo | 22 | 22 | 0 | ■ | 16 |
| Cost yr Ystad £[3] | 17.428m | 18.417m | + 5.67% | ▲ | 15.5m |
| Rhent £[3] | 5.835m | 5.891m | + 0.96% | ▲ | 4.7m |
| Ardrethi £[3] | 2.771m | 2.785m | + 0.50% | ▲ | 2.6m |
| Arall £[3] | 8.821m | 9.740m | + 10.4% | ▲ | 8.2m |
| **Effeithlonrwydd**[4] | | | | | |
| Cost fesul FTE | £3,229 | £3,380 | + 4.67% | ▲ | £2,696 |
| Effeithlonrwydd o ran Cost – £ fesul metr sgwâr | 212.82 | 223.85 | + 5.18% | ▲ | 221 |
| Rhent – £ fesul metr sgwâr | 71.26 | 71.61 | + 0.49% | ▲ | 68 |
| Ardrethi – £ fesul metr sgwâr | 33.84 | 33.85 | + 0.03% | ▲ | 37 |
| Arall – £ fesul metr sgwâr | 107.72 | 118.39 | + 9.91% | ▲ | 118 |
| Effeithlonrwydd o ran Lle – metr sgwâr fesul FTE | 15.2 | 15.1 | - 0.66% | ○ | 12 |
| Metr sgwâr fesul gweithfan | 11.95 | 12.21 | + 2.20% | ▲ | 11 |
| Gweithfannau fesul FTE | 1.27 | 1.24 | - 2.36% | ○ | 1 |

○ Gwella ▲ Gwaethygu ■ Dim Newid

[3] Wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf.

[4] Defnyddiwyd ffigurau gwirioneddol yn hytrach na ffigurau wedi'u talgrynnu i gyfrifo ffigurau effeithlonrwydd .

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | % Newid | Sgôr | Targedau 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 6,939 | 6,259 | - 9.80% | ○ | Gostyngiad o 30% erbyn 2020 ar waelodlin 2010/11 |
| Trydan (t $CO_2$) | 5,863 | 5,193 | - 11.43% | ○ | |
| Nwy (t $CO_2$) | 1,076 | 1,066 | - 0.93% | ○ | |
| Cyfanswm gwastraff sy'n dod i'r golwg (tunelli) | 498 | 553 | + 11.04% | ▲ | Gostyngiad o 0.5% y flwyddyn |
| Safle Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 22 | 18.5 | - 15.91% | ▲ | Cynyddu ailgylchu i 80% |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 78 | 81.5 | + 4.89% | ○ | |
| Dŵr (CU.M/unigolyn/ blwyddyn) | 8.0 | 7.1 | - 11.25% | ○ | $6m^3$ y pen y flwyddyn mewn safleoedd allweddol |

○ Gwella ▲ Gwaethygu ■ Dim Newid

Mae crynodeb o berfformiad yr Ystad rhwng 2012 a 31 Mawrth 2017 ar gael yn Atodiad 4.



# 2. Maint yr Ystad

## 2.1 Nifer y Daliadau

Ar 31 Mawrth 2017 roedd ystad weinyddol Llywodraeth Cymru yng Nghymru yn cynnwys 22 o swyddfeydd craidd a gweithredol. Ni chafodd unrhyw swyddfa ei chau yn 2016-17. Bwriedir cau chwe swyddfa yn 2017-18 a bydd staff yn symud i safleoedd eraill yng Nghaernarfon a Chaergybi. Y bwriad o hyd yw lleihau ystad swyddfeydd craidd Llywodraeth Cymru i 15 eiddo erbyn mis Mawrth 2020.

Mae crynodeb o'r daliadau presennol ar gael yn Atodiad 1, ac mae trosolwg rhanbarthol o'r ystad wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

## 2.2 Cyfanswm yr Arwynebedd Llawr

Mae'r lle a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu 382 metr sgwâr i 82,275 metr sgwâr dros y 12 mis diwethaf hyd at 31 Mawrth 2017.

Mae'r cynnydd hwn wedi deillio o denantiaid yn gadael neu'n defnyddio llai o le yn Heol Picton, Caerfyrddin; Llys y Ddraig, Penlle'r-gaer, Abertawe; a Rhodfa Padarn, Aberystwyth. Gosodir hyn yn erbyn isosod swyddfeydd nas defnyddir i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC) yn Nhŷ'r Afon, Bedwas. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwaredu ei buddiant rhydd-ddaliadol yn y swyddfa yn Nhŷ Ladywell, y Drenewydd, ond mae'n parhau i feddiannu'r swyddfeydd fel tenant. Nid yw'r gwarediad hwn yn effeithio ar y ffigurau yn yr adroddiad hwn.

Bydd swyddfeydd yn cau yn y llefydd canlynol yn 2017-18:

- Caernarfon
- Caergybi
- Tŷ'r Llyn, Abertawe
- Hill House, Caerfyrddin
- Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr
- Tŷ Aberhonddu, Caerffili

Ar ôl caffael swyddfeydd newydd yng Nghaergybi a Chaernarfon, bydd y broses o gau'r swyddfeydd hyn yn golygu y bydd y swyddfeydd a feddiannir tua 4,650 metr sgwâr yn llai, a'r cyfanswm newydd fydd 77,625 metr sgwâr.

Mae'r lle a feddiannir wedi gostwng o 101,000 metr sgwâr yn 2008 i 82,275 metr sgwâr ar 31 Mawrth 2017, sef gostyngiad o 18.5%. Rydym yn debygol o lwyddo i leihau'r lle a feddiannir i lai na 70,000 metr sgwâr erbyn 2020.



# 3. Costau

Cyfanswm cost meddiannaeth am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 oedd £18,417,022, sef cynnydd o £989,474 dros y 12 mis diwethaf. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau rhent gwirioneddol eiddo lesddaliadol, rhent tybiedig mewn cysylltiad ag eiddo rhydd-ddaliadol, ardrethi busnes ac alldaliadau eraill. Mae defnyddio rhent tybiedig yn golygu bod modd gwneud cymhariaeth ag eiddo lesddaliadol ac ystadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae'r gost uwch yn deillio'n bennaf o gontract Rheoli Cyfleusterau Meddal newydd Llywodraeth Cymru ac o'r broses o ail-alinio cyllidebau mewnol. Mae'r contract Rheoli Cyfleusterau Meddal newydd yn disodli contract a gyflwynwyd saith mlynedd yn ôl ac mae'n cynnwys swyddogaethau cymorth i fusnesau ychwanegol a gyflawnwyd gynt gan aelodau o staff Llywodraeth Cymru. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys diogelwch; derbynfa; tasgmon; post; gofalwr; negesyddion a phorthorion. Er bod hyn wedi cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â'r ystad weinyddol, mae gorbenion Llywodraeth Cymru mewn meysydd cyllidebol gwahanol wedi gostwng.

## 3.1 Cost yr Ystad

Mae cost flynyddol yr ystad rhwng 2012 a 2017 i'w gweld yn Atodiad 4. Mae'r costau'n cynnwys:

- ymrwymiadau rhentu, rhent tybiedig mewn cysylltiad ag eiddo rhydd-ddaliadol, a thaliadau ar gyfer gwasanaethau
- ardrethi
- costau rheoli cyfleusterau caled a meddal
- Lwfansau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon
- costau cynllun gweithredu rheoli carbon.

Mae costau rhentu wedi cynyddu £56,000 dros y 12 mis diwethaf wrth i Lywodraeth Cymru ddod yn gyfrifol am le a feddiannwyd o'r blaen gan denantiaid ac is-denantiaid. O ganlyniad i'r bwriad i gau swyddfeydd yn ystod 2017-18, rydym yn rhagweld y byddwn yn arbed tua £400,000 y flwyddyn mewn costau rhent.

Cynyddodd Ardrethi Busnes Unffurf yng Nghymru o 48.2c i 48.6c yn 2016-17. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, a'r cynnydd mewn lle a feddiannir, roedd rhaid talu tua £14,000 yn fwy o drethi. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau arbedion blynyddol o £320,000 ar ei bil ardrethi, er gwaetha'r ffaith fod yr Ardrethi Busnes Unffurf wedi cynyddu bob blwyddyn. Rhagwelir y bydd arbedion eraill gwerth tua £200,000 yn cael eu gwneud y flwyddyn nesaf.

Cynyddodd alldaliadau eraill £989,474 y llynedd. Mae'r contract Rheoli Cyfleusterau Meddal a gafodd ei dendro yn ddiweddar bellach yn cynnwys swyddogaethau a gyflawnwyd o'r blaen gan staff Llywodraeth Cymru. Ni chafodd y costau hyn eu cynnwys yn ffigurau'r llynedd. Disgwylir y bydd y cynlluniau gwaredu eiddo yn 2017-18 yn arbed tua £470,000 mewn alldaliadau eraill.

Mae biliau cyfleustodau wedi gostwng 10.7% i £20.21 fesul metr sgwâr yn 2016-17.

[5] Mae'r ffigur hwn yn berthnasol i eiddo sy'n cael ei adael. Nid yw costau ardrethi'r eiddo newydd yng Nghaernarfon a Chaergybi yn hysbys.

| Cyfleustodau | 2014-2015 | 2015-16 | 2016-17 | % Newid fesul blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Dŵr £ | 149,480 | 146,923 | 144,290 | -1.79% |
| Nwy £ | 284,628 | 260,380 | 193,364 | -25.7% |
| Trydan £ | 1,618,326 | 1,421,536 | 1,295,386 | -8.8% |
| **Cyfanswm** | **£2,052,434** | **£1,828,839** | **£1,663,040** | **-10.7%** |

Mae Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) yn gynllun gorfodol i adrodd ar allyriadau, sy'n effeithio ar sefydliadau mawr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Ei nod yw lleihau allyriadau $CO_2$ drwy effeithlonrwydd ynni. Mae Llywodraeth Cymru yn prynu 'lwfansau' ar gyfer pob tunnell o garbon sy'n cael ei hallyrru yn sgil defnyddio nwy a thrydan. Yn 2016-17, prynwyd 26,743 o lwfansau am gost o £435,996, sef £16 fesul lwfans ar gyfartaledd. Priodolwyd 6,191 o'r rhain i'r ystad weinyddol, sy'n 10% yn is na ffigurau 2015-16. Cyfanswm cost y lwfansau a briodolwyd i'r ystad weinyddol yn 2016-17 oedd £101,220.70.



# 4. Effeithlonrwydd

Mae cost effeithlonrwydd yr ystad yn ddadansoddiad o gostau ar sail gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, arwynebedd llawr a feddiannir a gweithfannau. Mae crynodeb o berfformiad yn erbyn y flwyddyn flaenorol a thargedau 2020 i'w weld yn 1.4 ac mae crynodeb o 2012 i 2017 i'w weld yn Atodiad 4.

Mae arwynebedd llawr, costau cyfleusterau a gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu yn 2016-17, gan arwain at gynnydd yn y gost fesul metr sgwâr ledled yr ystad. Mae'r metrau sgwâr fesul gweithfan wedi cynyddu ychydig, ond bu gwelliant o ran effeithlonrwydd metrau sgwâr fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn a nifer y gweithfannau fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn.


Mae gwaith yn parhau ar ein rhaglen ad-drefnu'r ystad, a bydd saith eiddo yn cau (4,650 metr sgwâr) yn 2017-18. Mae rhai o'r adeiladau hyn, gan gynnwys Tŷ'r Llyn, Tŷ Aberhonddu a Pharc Bocam ymysg y lleiaf effeithlon ar yr ystad weinyddol. Rhagwelir y bydd arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud y flwyddyn nesaf. Ar sail costau 2016-17, disgwylir y bydd yr arbedion blynyddol yn fwy nag £1m.

Mae'r Strategaeth Leoli yn cynnig rhagor o ad-drefnu hyd at 31 Mawrth 2020, a bydd eiddo'n cael ei gau wrth i'r cyfle godi, gan ddibynnu ar anghenion busnes.

Mae ystad weinyddol Llywodraeth Cymru yn perfformio'n well o lawer o gymharu â ffigurau a gyhoeddwyd ar gyfer Ystad Llywodraeth Ganolog y DU ac Ystad Llywodraeth yr Alban mewn amrywiaeth o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

## 4.1 Meincnodi

Gellir crynhoi'r dangosyddion perfformiad allweddol fel a ganlyn:



## 4.2 Cost fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn

Yn 2016-17, cynyddodd nifer y staff i 5,449 o weithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, sydd ychydig yn fwy nag yn 2015-2016. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gweithwyr cyflogedig a chontractwyr Llywodraeth Cymru. Mae gweithwyr cyflogedig contractwyr wedi'u cynnwys yn y ffigur cyffredinol oherwydd eu bod yn cefnogi busnes y Llywodraeth, gan weithio yn eiddo'r Llywodraeth, a'i ddefnyddio, yn yr un modd â gweithwyr cyflogedig Llywodraeth Cymru. Drwy letya contractwyr yn ein swyddfeydd, rydym yn gwneud arbedion cyffredinol, gan leihau costau gweithredu contractwyr a lefel y ffioedd a delir gan Lywodraeth Cymru.

Roedd **cost gyfartalog fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn** i ystad Llywodraeth Cymru yn £3,380 ar 31 Mawrth 2017, sef cynnydd o 4.67% ers y llynedd. Mae'r cynnydd hwn yn deillio'n bennaf o gostau diogelwch uwch a swyddogaethau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y contract Rheoli Cyfleusterau Meddal newydd.

Y ffigur cyfatebol diweddaraf ar gyfer Ystad y Llywodraeth Ganolog (2015-16) oedd £4,587 fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn[6], a'r ffigur yn yr Alban (2014-15) oedd £4,817 fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn[7]. Y ffigur cyfwerth ar gyfer y sector preifat yn 2015-16 oedd £5,428)[6].

Mae perfformiad ystad Llywodraeth Cymru yn cymharu'n ffafriol â'r ffigurau hyn.

## 4.3 Cost fesul metr sgwâr

Ar hyn o bryd, mae rhent yn costio £71.61 fesul metr sgwâr ar gyfartaledd, sydd ychydig yn fwy na'r llynedd.

Mae'r ardrethi sy'n daladwy wedi cynyddu 0.01 fesul metr sgwâr dros y flwyddyn.

Mae 'Costau Eraill', sy'n cynnwys cyfleustodau, cynnal a chadw, taliadau gwasanaeth, yswiriant ac ati wedi cynyddu £10.67 fesul metr sgwâr yn ystod y flwyddyn, sy'n gyfwerth â chynnydd o £919,464. Gellir priodoli hyn i'r cynnydd cyffredinol mewn prisiau, ac i'r contract Rheoli Cyfleusterau Meddal newydd. Erbyn hyn, mae'r costau hyn yn cynnwys amrywiaeth o swyddogaethau diogelwch a chymorth busnes.

Mae arbedion o 10% wedi'u sicrhau mewn perthynas â Chostau'r Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon a Lwfansau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon ar gyfer yr ystad weinyddol.

**Cyfanswm y gost fesul metr sgwâr ar gyfartaledd ledled yr ystad ar 31 Mawrth 2017 oedd £223.85** o'i gymharu â £212.82 yn 2016, sy'n gynnydd o 5.18%.

Y ffigur cyfatebol diweddaraf ar gyfer Ystad y Llywodraeth Ganolog (2015-16) yw £443[6] fesul metr sgwâr, a'r ffigur ar gyfer yr Alban (2014-15) yw £348[7]. Mae perfformiad ystad Llywodraeth Cymru yn cymharu'n ffafriol â'r ffigurau hyn.

Y ffigur cyfatebol ar gyfer y sector preifat yn 2015-16 oedd £502 fesul metr sgwâr[6].

[6] Swyddfa'r Cabinet, 2017 The State of the Estate 2015-16.

[7] The Scottish Civil Estate: Efficiency and Sustainability 2014-15.

## 4.4 Effeithlonrwydd o ran Lle

Roedd effeithlonrwydd lle ar **31 Mawrth 2017 yn 15.1 metr sgwâr fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn**, sydd ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol, ac 16.6% yn well nag yn 2012.

Er bod gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud o hyd ledled yr ystad, nid yw Llywodraeth Cymru yn perfformio cystal â'r Ystad Sifil Ganolog. Y ffigur cyfatebol diweddaraf ar gyfer Ystad y Llywodraeth Ganolog yw 10.4 metr sgwâr fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn (2015-16)[8] a'r ffigur ar gyfer yr Alban yw 13.9 metr sgwâr fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn (2014-15)[9].

Y ffigur cyfatebol ar gyfer y sector preifat yn 2015-16 yw 10.9 metr sgwâr fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn[8].

Os yw'r broses o gau eiddo y cyfeiriwyd ati uchod yn mynd rhagddi, dylem gyrraedd y targedau o 12.8 metr sgwâr fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn a'r gymhareb ddesg 8:10 erbyn 31 Mawrth 2020.

Mae costau uwch fesul gweithiwr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn yn ystadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn adlewyrchu eu strategaethau i gynnal swyddfeydd sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol. Er bod y dull gweithredu hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd i geisio sicrhau mwy o arbedion maint, mae yna fanteision economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau sy'n gartref i swyddfeydd y llywodraeth.

Cafwyd cam ymlaen o safbwynt yr her o wella effeithlonrwydd yr ystad yn 2016-17 pan gyflwynwyd cynllun peilot Hybu Hyblygrwydd ar gyfer y staff yn swyddfa Merthyr Tudful. Yn ogystal â gwella adnoddau TGCh gwaith tîm, mannau cyfarfodydd anffurfiol a gweithio'n dawel, mae Hybu Hyblygrwydd wedi galluogi timau i fabwysiadu arferion gweithio mwy ystwyth. Drwy ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant, roedd timau'n gallu cael blas ar weithio mewn lleoliadau lluosog. Awgrymodd y gwerthusiad fod y cynllun peilot wedi llwyddo i leihau amser teithio i gyfarfodydd, gan wella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a lleihau cyfraddau salwch.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno i ymestyn Hybu Hyblygrwydd ledled yr ystad, gan gefnogi'r newid diwylliannol sy'n hanfodol i effeithlonrwydd yr ystad. Mae Astudiaeth Achos Hybu Hyblygrwydd i'w gweld yn Atodiad 6.

## 4.5 Adborth gan ein Staff

Mae polisi Llywodraeth Cymru o gynnwys aelodau staff a gwrando ar adborth ganddynt wedi'i sefydlu yn ein rhaglen gwella busnes ac mae'n cynnwys arolwg blynyddol sy'n rhoi'r cyfle i'r staff ddarparu adborth yn ddienw ac yn gyfrinachol.

Yn 2016, cymerodd 71% (3,931) o staff ran yn yr arolwg. Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn fodlon â'u hamgylchedd gwaith, a chafwyd ymateb cadarnhaol gan 72%[10] ohonynt.

8 Swyddfa'r Cabinet, 2017 The State of the Estate 2015-16.

9 The Scottish Civil Estate: Efficiency and Sustainability 2014-15.

10 www.gov.wales/docs/caecd/research/2016/160721-welsh-government-people-survey-2016-cy.pdf.

# 5. Perfformiad Amgylcheddol

Roedd 2016-17 yn flwyddyn lwyddiannus arall wrth i Lywodraeth Cymru barhau i wella perfformiad amgylcheddol yr ystad.


Rydym wedi defnyddio llai o ddŵr ac ynni, ac mae cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu wedi gwella. Mae prosiectau bioamrywiaeth ychwanegol wedi'u cyflwyno ar nifer o safleoedd ac maent yn cael eu cynnwys ym mhob prosiect adnewyddu.

Cafwyd 10.7% yn llai o allyriadau $CO_2$ yn ystod 2016-17, sef gostyngiad o 51% ers blwyddyn sylfaenol 2010-11. Er ein bod eisoes wedi rhagori ar darged 2020, bydd lleihau allyriadau carbon yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer defnyddio ynni'n effeithlon.

## 5.1 Rheoli a Lleihau Carbon

Cyfanswm ein hallyriadau carbon yn 2016-17 oedd 6,259 o dunelli o $CO_2$, sy'n 680 o dunelli (9.8%) yn llai nag yn 2015-16. Yn gyffredinol, rydym wedi lleihau ein hallyriadau gan 6,303 o dunelli ers blwyddyn sylfaenol 2010-11.

### Cyfanswm Allyriadau Carbon Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru




## 5.2 Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC)

Mae'r Dystysgrif Ynni i'w Harddangos wedi'i chynllunio i ddangos perfformiad ynni adeilad ar raddfa rhwng 'A' a 'G' – 'A' yw'r mwyaf effeithlon. Mae'r dangosyddion yn amlygu perfformiad gweithredol ar sail allyriadau carbon deuocsid blynyddol fesul uned arwynebedd yr adeilad a achosir gan ei defnydd o ynni, o'i gymharu â ffigur a fyddai'n cael ei ystyried yn nodweddiadol ar gyfer adeilad o'r fath.

Dyma'r sgoriau DEC ar gyfer ein prif safleoedd:

### Perfformiad DEC Safleoedd 2016/2017




Er bod y perfformiad DEC[11] wedi dirywio ychydig ers 2015-16, mae'r ystad wedi lleihau ei defnydd o nwy (-0.93%) a thrydan (-9.8%). Yn gyffredinol, mae allyriadau $CO_2$ wedi gostwng 9.8%. Mae ynni adnewyddadwy o ffynonellau biomas a ffotofoltäig wedi'i gyflwyno hefyd.

## 5.3 Rheoli Dŵr

Mae'r defnydd o ddŵr wedi gostwng 11.25% o $8m^3$ i $7.1m^3$ y pen yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Y nod yw cyrraedd y targed arfer gorau o $6.0m_3$ erbyn mis Mawrth 2020. Y targed arfer gorau a hyn o bryd yw $4.0m_3$ yn unol â Thargedau Ymrwymiad Gwyrddu Llywodraeth y DU.

Llwyddodd chwe swyddfa i gyrraedd neu ragori ar y targed arfer gorau. Defnyddiwyd 30% yn llai o ddŵr yn swyddfa Rhyd-y-car, Merthyr yn ystod 2016-17 diolch i broses well o reoli dŵr a chyflwyno troethfeydd di-ddŵr.

Mae troethfeydd di-ddŵr wedi'u gosod yn chwech o'n swyddfeydd bellach, a bwriedir ymestyn y defnydd ohonynt yn 2017-18.

[11] O ganlyniad i rai o'r tybiaethau sy'n rhan o'r fethodoleg gyfrifo.

## 5.4 Rheoli Gwastraff


Cyflwynwyd contract Rheoli Cyfleusterau Meddal newydd yn 2016. Yn dilyn adolygiad o brosesau rheoli gwastraff, mae deunyddiau gwastraff bellach yn cael eu pwyso â llaw yn fwy rheolaidd ar fwy o safleoedd. Mae prosesau rheoli data wedi'u hadolygu er mwyn ceisio gwella dilysrwydd y data sy'n cael ei gasglu.

Cynyddodd gwastraff wedi'i fesur 11% yn ystod 2016-17, a chredir bod y cynnydd hwn wedi deillio o gasglu ac adrodd ar ddata yn well. Cafwyd cynnydd o 77.6% i 81.5% yng nghyfran y deunyddiau gwastraff a ailgylchwyd, a oedd yn rhagori ar ein targed 2020 o 80%. Anfonwyd 15.91% yn llai o wastraff i safleoedd tirlenwi yn ystod 2016-17. Bwriedir gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data yn 2017-18 er mwyn sicrhau bod modd mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn ddi-oed.

Mae gwelliannau eraill ym maes rheoli gwastraff yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- gostyngiad yn nifer y biniau gwastraff cyffredinol, yn enwedig mewn ystafelloedd cyfarfod
- cynnydd yn y cyfleusterau ar gyfer ailgylchu
- gwella hygyrchedd a lleoliad biniau

**Faint o ddŵr a ddefnyddiwyd yn flynyddol fesul unigolyn (M³)**




## 5.5 Gwella Bioamrywiaeth

Mae nifer o brosiectau amrywiol wedi'u datblygu ledled yr ystad er mwyn diogelu a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt, gan gynnwys:

- plannu gerddi blodau gwyllt cynhenid
- torri'r glaswellt yn llai aml
- gosod bocsys ar gyfer adar ac ystlumod
- creu cartrefi ar gyfer draenogod a phryfed
- sefydlu gwenynfeydd ger tair swyddfa
- defnyddio plaladdwyr sy'n ystyriol o fyd natur.

Y nod yw parhau i gydweithio â chontractwyr tirlunio meddal, ecolegwyr mewnol ac allanol a chydweithwyr polisi er mwyn creu gerddi blodau gwyllt ychwanegol a gosod cartrefi i fywyd gwyllt. Hefyd, bwriedir cynnal ymarferiad cyfathrebu yn ystod Wythnos Natur Cymru 2017.

# Bioamrywiaeth ar draws ystad weinyddol Llywodraeth Cymru

## Gwella bioamrywiaeth a lles

Gall gwella bioamrywiaeth ein hystad helpu lleihau ein hallyriadau ac adeiladu gwytnwch yn yr hinsawdd, yn ogystal â darparu lle deniadol i weithio.




**Aberystwyth, Rhodfa Padarn**



- Blychau ystlumod
- Baddonau adar
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Gwenynfeydd (ar y cyd â chymdeithas cadw gwenyn Aber)
- Cuddfannau cacwn
- Cartrefi chwilod
- Biniau carped
- Biniau compost
- Defnyddio tail asynnod a gronynnau coffi wrth dirlunio
- Cartrefi draenog
- Cuddfan nadroedd defaid
- Gorsaf dywydd i fonitro glöynnod byw
- Ardal blodau gwyllt

**Cyffordd Llandudno, Sarn Mynach**



- Blychau ystlumod
- Gwenynfeydd (ar y cyd ag arbenigwr Vinci a chymdeithas cadw gwenyn Conwy)
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Cartrefi draenog
- Pwll
- Ardaloedd blodau gwyllt

**Llandrindod, Spa Road East**

- Blychau ystlumod
- Blychau adar
- Cartref chwilod
- Cartrefi draenog
- Ardal blodau gwyllt

**Caerfyrddin, Teras Picton**

- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Gerddi blodau gwyllt

**Merthyr Tudful, Parc Busnes Rhyd-y-car**

- Gwenynfa (ar y cyd â gwenyn Beacon)
- Baddonau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Tŷ llyffantod
- Mainc gardd a blychau adar (wedi eu gwneud â llaw gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, Merthyr)
- Cartrefi draenog
- Ardaloedd blodau gwyllt

**Abertawe, Llys-y-Ddraig**



- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Pwll
- Ardaloedd blodau gwyllt

**Trefforest, Canolfan QED**



- Blychau ystlumod
- Blychau adar
- Bwydwyr adar
- Cartrefi chwilod
- Cartrefi draenog
- Ardaloedd blodau gwyllt

**Bedwas, Tŷ Afon**



- Blychau ystlumod
- Bwydo adar
- Cartref chwilod
- Blychau tylluan
- Ardal blodau gwyllt

**Nantgarw, Plas Carew**



- Blwch tylluan
- Ardal blodau gwyllt

**Caerdydd, Parc Cathays**



- Gerddi cyfeillgar i beillwyr

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth e-bost bioamrywiaeth@llyw.cymru

# 6. Rhagolwg 2017-18

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod dwy flynedd gyntaf y Strategaeth Leoli. Bydd cynnydd yn ystod gweddill cyfnod y Strategaeth yn parhau i ddibynnu ar ad-drefnu'r ystad a gwella'r perfformiad ynni.

I fod yn effeithiol ac yn effeithlon, mae'n rhaid i unrhyw ostyngiad pellach ym maint yr ystad gael ei arwain gan anghenion busnes a nod Llywodraeth Cymru i gynnal ystad wasgaredig. Drwy weithio'n fwy hyblyg a gwella gwaith cynllunio a thechnolegau, bydd modd i'r ystad weithio ar sail cymhareb desg o 8 gweithfan i 10 aelod o staff ar gyfartaledd. Disgwylir y bydd y broses o roi prosiect Hybu Hyblygrwydd ar waith ledled yr ystad yn cefnogi'r amcan hwn.

Rydym eisoes wedi llwyddo i leihau maint yr ystad drwy gau Tŷ'r Llyn, Abertawe a Thŷ Aberhonddu, Caerffili. Mae'r broses o adael Parc Bocam a'r broses adleoli yng Nghaernarfon a Chaergybi ar waith. Mae'r cam olaf o adnewyddu Heol Picton, Caerfyrddin wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith o adnewyddu swyddfeydd Llys y Ddraig, Penlle'r-gaer wedi'i gwblhau hefyd.

Bydd y swyddfa arfaethedig yn Noc Fictoria, Caernarfon yn darparu llety modern, hyblyg ac yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn meddiannu 1,794 metr sgwâr yn llai o swyddfeydd. Mae'r swyddfa, storfa a labordy arfaethedig yn Noc Caergybi yn cael eu hadnewyddu yn unol â gofynion busnes penodol Adran y Môr a Physgodfeydd, a bydd yn golygu bod yr adran hon yn gallu gadael swyddfa yn swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a fydd yn cau ym mis Mawrth 2018.

Bydd y gwaith adnewyddu cam wrth gam parhaus ym Mharc Cathays, Caerdydd yn sicrhau bod gennym y capasiti gofynnol i ddarparu lle mwy effeithlon a hyblyg er mwyn parhau i ad-drefnu ystad y De-ddwyrain dros y tair blynedd nesaf.

Mae cyd-leoli yn parhau i fod yn flaenoriaeth ledled yr ystad. Os nad yw swyddfeydd wedi'u llenwi, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i sefydliadau cyhoeddus eraill feddiannu swyddfeydd wedi'u gwasanaethu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi meddiannu swyddfeydd gwag Llywodraeth Cymru yn Rhodfa Padarn, Aberystwyth a Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, a meddiannodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru swyddfa wag ym Medwas fel is-denant yn 2016.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran lleihau defnydd ynni sy'n dod o nwy a thrydan, a bwriedir defnyddio llai o ddŵr yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i wella ein proses o gasglu a defnyddio data, ac os oes modd, bydd atebion peirianyddol yn cael eu defnyddio i wneud rhagor o welliannau.

Mae'r adroddiad hwn wedi adolygu perfformiad yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol nad ydynt wedi'u hadolygu ers yr adroddiad cyntaf ar Gyflwr yr Ystad yn 2009. Un o'r amcanion allweddol ar gyfer 2017-18 fydd adolygu dangosyddion, gan ystyried arferion gorau ar hyn o bryd.

Pennwyd y targedau ar gyfer Strategaeth Leoli 2015-2020 ar sail y fframweithiau rheoli cyfleusterau caled a meddal a oedd yn weithredol ar ôl 2011. O ystyried y broses o ail-alinio cyllidebau sydd wedi arwain at y costau cyfleusterau ychwanegol a amlinellir yn yr adroddiad hwn, cyfraddau'r contract rheoli cyfleusterau meddal o 2016 ymlaen a'r contract rheoli cyfleusterau caled newydd a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd y cyfnod adrodd nesaf yn gyfle amserol i adolygu'r targedau a bennwyd yn wreiddiol.

# 7. Presenoldeb Llywodraeth Cymru Dramor 2016-17

## 7.1 Gwaith y Swyddfeydd Tramor

Mae presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn swyddfeydd tramor yn ceisio cryfhau cysylltiadau a chysylltedd ac yn creu buddion a manteision economaidd drwy hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd[12]. Mae'r gweithgareddau craidd yn cynnwys hyrwyddo a chryfhau cysylltiadau rhwng y llywodraeth a sefydliadau; masnach a buddsoddi; twristiaeth; diwylliant ac addysg.

## 7.2 Yr Ystad Dramor

Erbyn hyn, mae gan Lywodraeth Cymru 15 o swyddfeydd mewn 7 gwlad: Gwlad Belg; Tsieina; Iwerddon; India; Japan; Yr Emiraethau Arabaidd Unedig a'r Unol Daleithiau. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, rydym wedi llwyddo i gyd-leoli 9 o'n cynrychiolaethau presennol a chynrychiolaethau newydd mewn adeiladau'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, gan gryfhau cysylltiadau sefydliadol a chyfleoedd rhwydweithio.

Cwblhawyd dau brosiect cyd-leoli arall yn 2016. Ym mis Ebrill 2016, symudodd ein cynrychiolaeth yn Tokyo i Lysgenhadaeth Prydain, Tokyo. Ym mis Ionawr 2017, symudodd ein cynrychiolaeth ym Mumbai i'r Is Uchel Gomisiwn, Mumbai.

Erbyn hyn, mae gan Lywodraeth Cymru gyfanswm o 12 cynrychiolaeth wedi'u cyd-leoli o fewn Llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau neu Swyddfeydd Is-genhadon y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.




[12] Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol www.gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy.

## 7.3 Edrych i'r dyfodol

Bydd yr ystad dramor yn gwneud cyfraniad allweddol at gyflawni amcanion y Strategaeth Genedlaethol. Wrth i ni geisio cryfhau ein presenoldeb dramor, byddwn yn parhau i gydweithio â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a chwilio am gyfleoedd i gyd-leoli lle mae'n gwneud synnwyr i ni wneud hynny.

### Yr Ystad Dramor, Costau Rhedeg Blynyddol (£)

| | **2014-2015** | **2015-16** | **2016-17** |
|---|---|---|---|
| Atlanta | – | 9,000 | 9,000 |
| Bangalore | 18,000 | 18,000 | 9,000 |
| Beijing | 16,588 | 16,662 | 17,331 |
| Brwsel | 247,951 | 231,989 | 317,105 |
| Chicago | 9,000 | 9,000 | 9,000 |
| Chongqing | 26,781 | 29,471 | 36,790 |
| Dubai | 18,163 | 18,000 | 18,000 |
| Dulyn | 9,000 | 9,000 | 9,765 |
| Mumbai | 25,981 | 29,471 | 38,133 |
| Delhi Newydd | 9,000 | 9,000 | 9,000 |
| Efrog Newydd | 27,000 | 27,000 | 18,000 |
| San Francisco | 9,000 | 9,000 | 9,000 |
| Shanghai | 31,519 | 17,979 | 17,465 |
| Tokyo | 59,397 | 61,391 | 5,875 |
| Washington | 18,000 | 22,872 | 27,000 |
| | **£525,380** | **£517,790** | **£550,464** |

# Atodiad 1: Crynodeb o'r Data Eiddo Gwreiddiol

| Cyfeiriad | Cyfanswm perchenogaeth AMN Llywodraeth Cymru | AMN metr sgwâr | Staff Snowdrop 2017 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio lle Llywodraeth Cymru) | Metr sgwâr yr aelod staff Snowdrop | Cymhareb ddesg | Deiliadaeth | Alldaliadau Blynyddol ac Eithrio Rhent, Ardrethi | Ardrethi a dalwyd 2017 | Treth gan gynnwys TAW (lle bo'n daladwy) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2 Parc Cathays, Caerdydd | 37,904 | 37,696 | 2,635.5 | 14 | 1.22 | ○ | £4,101,192 | £970,999 | £1,850,000* |
| Rhan o Lawr 2/ Rhan o Lawr 5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | | 1,792 | 124.6 | 14 | 1.43 | ■ | £48,542 | £0 | £0 |
| Tŷ Southgate, Caerdydd (Llawr Cyntaf) | | 371 | 28.7 | 13 | 1.36 | ■ | £62,129 | £23,207 | £54,000 |
| Tŷ Aberhonddu, Parc Busnes Caerffili, Caerffili | | 395 | 14.8 | 27 | 1.22 | ■ | £34,270 | £25,758 | £67,576 |
| Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili | 2,907 | 2,486 | 153.2 | 16 | 1.61 | ■ | £359,356 | £125,873 | £374,568 |
| Rhyd-y-car, Merthyr Tudful | 6,097 | 6,083 | 584.3 | 10 | 0.98 | ○ | £1,066,926 | £281,880 | £550,000* |
| Plas Carew, Cefn Coed, Nantgarw (Unedau 5/7) | | 1,950 | 90.9 | 21 | 1.23 | ■ | £182,943 | £133,650 | £327,194 |
| 3ydd Llawr, Tŷ Clarence, Casnewydd | | 311 | 23.6 | 13 | 1.10 | ■ | £49,796 | £18,954 | £44,669 |
| Canolfan QED, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd | | 3,763 | 360.2 | 10 | 1.25 | ■ | £424,573 | £182,736 | £275,000* |
| Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr | | 329.5 | 5.6 | 59 | 4.29 | ■ | £53,546 | £23,328 | £57,457 |
| Adeilad y Goron, Heol Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 3,791 | 179.0 | 21 | 1.34 | ○ | £259,500 | £99,991 | £290,000* |

○ Rhydd-ddaliad ■ Lesddaliad ▲ Memorandwm Telerau Meddiannaeth * Rhent tybiannol

| Cyfeiriad | Cyfanswm perchenogaeth AMN Llywodraeth Cymru | AMN metr sgwâr | Staff Snowdrop 2017 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio lle Llywodraeth Cymru) | Metr sgwâr yr aelod staff Snowdrop | Cymhareb ddesg | Deiliadaeth | Alldaliadau Blynyddol ac Eithrio Rhent, Ardrethi | Ardrethi a dalwyd 2017 | Treth gan gynnwys TAW (lle bo'n daladwy) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hill House, Heol Picton, Caerfyrddin | 822 | 612 | 37.6 | 16 | 1.22 | ○ | £69,406 | £18,614 | £56,000* |
| Parc Busnes Havenshead, Aberdaugleddau | | 155 | 17.6 | 9 | 1.02 | ■ | £27,986 | £6,804 | £14,000* |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penlle'r-gaer, Abertawe | 1,792 | 1,759 | 148.3 | 12 | 1.01 | ○ | £226,791 | £72,024 | £145,000* |
| Tŷ'r Llyn, Clos Llyn Cwm, Parc Anturiaeth Abertawe | | 1,567 | 93.9 | 17 | 1.53 | ■ | £200,109 | £79,704 | £201,432 |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth | 6,612 | 6,151 | 285.1 | 22 | 1.44 | ○ | £940,964 | £237,077 | £555,000* |
| Adeilad y Goron, Spa Road East, Llandrindod | 2,672 | 2,475 | 98.6 | 25 | 2.17 | ○ | £266,496 | £46,410 | £150,000* |
| Tŷ Ladywell, y Drenewydd | 3,756 | 1,495 | 64.9 | 23 | 1.56 | ○ | £181,025 | £43,983 | £150,900 |
| Adeilad y Goron, Gogledd Penrallt, Caernarfon | 3,825 | 2,546 | 73.9 | 34 | 1.00 | ○ | £178,218 | £57,185 | £100,000* |
| Yr Hen Ficerdy, Caergybi | | 43 | 9.6 | 4 | 0.83 | ▲ | £21,181 | £955 | £12,266 |
| Sarn Mynach Cyffordd Llandudno | 7,105 | 6,186 | 404.5 | 15 | 1.07 | ○ | £931,236 | £319,030 | £560,000* |
| 1 Porthdy Grosvenor, Grosvenor Road, Wrecsam | | 318 | 14.1 | 23 | 1.99 | ■ | £54,081 | £17,132 | £56,400 |

○ Rhydd-ddaliad ■ Lesddaliad ▲ Memorandwm Telerau Meddiannaeth * Rhent tybiannol

# Atodiad 2: Arbedion Blynyddol o Eiddo a Adawyd

## Arbedion Cronnus o Eiddo a Adawyd 2010-2015

| | Eiddo a Adawyd | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2010-11 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2011-12 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2012-13 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2013-14 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2014-15 | Cyfanswm 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2010-11 | 16 | £663,026 | £1,447,305 | £1,447,305 | £1,447,305 | £1,447,305 | **£6,452,246** |
| 2011-12 | 9 | | £1,415,623 | £2,003,958 | £2,003,958 | £2,003,958 | **£7,427,497** |
| 2012-13 | 7 | | | £856,498 | £1,290,266 | £1,290,266 | **£3,437,030** |
| 2013-14 | 8 | | | | £565,130 | £905,270 | **£1,470,400** |
| 2014-15 | 4 | | | | | £478,939 | **£478,939** |
| **Cyfanswm yr Arbedion** | **44** | | | | | | **£19,266,112** |

## Strategaeth Leoli – Arbedion a Gyflawnwyd o Eiddo a Adawyd 2015-2020

| 2015-16 | Dyddiad gadael | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2015-16 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2016-17 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2017-18 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2018-19 | Amcangyfrif o gyfanswm yr arbedion 2019-20 | Amcangyfrif o'r cyfanswm 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ Wynchway, Hwlffordd | **01/02/16** | **£21,861** | **£131,168** | **£131,168** | **£131,168** | **£131,168** | **£546,533** |
| Ffordd Arran, Dolgellau | **31/03/16** | **–** | **£7,073** | **£7,073** | **£7,073** | **£7,073** | **£28,292** |
| Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth | **31/3/16** | **–** | **£29,094** | **£29,094** | **£29,094** | **£29,094** | **£116,376** |
| **Cyfanswm yr Arbedion** | | **£21,861** | **£167,335** | **£167,335** | **£167,335** | **£167,335** | **£691,201** |


# Atodiad 3: Trosolwg Rhanbarthol

| Gogledd Cymru | |
|---|---|
| Swyddfeydd | 4 |
| Arwynebedd Llawr | 9,093 m sg |
| Rhent | £728,666 |
| Ardrethi | £394,302 |
| Alldaliadau | £1,184,716 |
| Staff | 502 |

| Canolbarth Cymru | |
|---|---|
| Swyddfeydd | 3 |
| Arwynebedd Llawr | 10,121 m sg |
| Rhent | £855,900 |
| Ardrethi | £327,470 |
| Alldaliadau | £1,388,485 |
| Staff | 449 |

| De-orllewin Cymru | |
|---|---|
| Swyddfeydd | 5 |
| Arwynebedd Llawr | 7,884 m sg |
| Rhent | £706,432 |
| Ardrethi | £277,137 |
| Alldaliadau | £783,792 |
| Staff | 476 |

| De-ddwyrain Cymru | |
|---|---|
| Swyddfeydd | 7 |
| Arwynebedd Llawr | 15,318 m sg |
| Rhent | £1,696,464 |
| Ardrethi | £792,179 |
| Alldaliadau | £2,171,410 |
| Staff | 1,233 |




© Hawlfraint y Goron 2016
Cartographics • Llywodraeth Cymru • ML/36/10.11
Medi 2016

| Caerdydd | |
|---|---|
| Swyddfeydd | 3 |
| Arwynebedd Llawr | 39,859 m sg |
| Rhent | £904,000 |
| Ardrethi | £994,206 |
| Alldaliadau | £4,211,863 |
| Staff | 2,789 |

# Atodiad 4: Crynodeb o Berfformiad 2012-2017

| | 31 Mawrth 2012 | 31 Mawrth 2013 | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad – metr sgwâr | 92,497 | 88,483 | 84,572 | 82,295 | 81,888 | 82,275 |
| Nifer yr Eiddo | 41 | 35 | 29 | 25 | 22 | 22 |
| Cost yr Ystad £ * miliwn | 18.653 | 18.35 | 17.941 | 18.136 | 17.428 | 18.42 |
| Rhent £ * miliwn | 7.193 | 6.541 | 6.169 | 5.849 | 5.835 | 5.89 |
| Ardrethi £ * miliwn | 3.11 | 3.05 | 2.78 | 2.72 | 2.77 | 2.79 |
| Arall £ * miliwn | 8.35 | 8.77 | 8.99 | 9.56 | 8.82 | 9.74 |
| Lle Gwag | 2.47% | 1.42% | – | – | – | – |
| **Effeithlonrwydd**** | | | | | | |
| Cost fesul FTE | 3,639 | 3,420 | 3,285 | 3,139 | 3,229 | 3,380 |
| Effeithlonrwydd o ran Cost £ fesul metr sgwâr | 201.66 | 207.39 | 212.14 | 220.37 | 212.82 | 223.85 |
| Rhent £ fesul metr sgwâr | 77.76 | 73.92 | 72.95 | 71.08 | 71.26 | 71.61 |
| Ardrethi £ fesul metr sgwâr | 33.59 | 34.42 | 32.88 | 33.07 | 33.84 | 33.85 |
| Arall £ fesul metr sgwâr | 90.31 | 99.05 | 106.31 | 116.23 | 107.72 | 118.39 |
| Effeithlonrwydd o ran Lle metr sgwâr fesul FTE | 18.1 | 16.5 | 15.5 | 14.2 | 15.2 | 15.1 |
| Metr sgwâr fesul gweithfan | 12.53 | 12.48 | 12.30 | 11.46 | 11.95 | 12.21 |
| Gweithfannau fesul FTE | 1.44 | 1.32 | 1.26 | 1.24 | 1.27 | 1.24 |
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 10,503 | 10,392 | 9,220 | 8,498 | 6,939 | 6,259 |
| Trydan (t $CO_2$) | 8,907 | 8,523 | 7,683 | 7,185 | 5,863 | 5,193 |
| Nwy (t $CO_2$) | 1,596 | 1,870 | 1,537 | 1,313 | 1,076 | 1,066 |
| Cyfanswm gwastraff sy'n dod i'r golwg (Tunelli) | 665 | 609 | 583 | 500 | 498 | 553 |
| Safle Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 34 | 31 | 31 | 25 | 22 | 18.5 |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 66 | 69 | 69 | 75 | 78 | 81.5 |
| Dŵr (CU.M/unigolyn/ blwyddyn) | 10 | 8 | 9.8 | 8.3 | 8 | 7.1 |

* Ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £100,000 agosaf
** Defnyddiwyd ffigurau gwirioneddol yn hytrach na ffigurau wedi'u talgrynnu i gyfrifo ffigurau effeithlonrwydd

# Atodiad 5: Astudiaeth Achos – Cynllun Peilot Hybu Hyblygrwydd

Mae Strategaethau Leoli Llywodraeth Cymru wedi sicrhau arbedion cost ac ynni sylweddol, yn rhannol drwy waredu strategol asedau eiddo. Mae rhagor o arbedion posibl wedi'u nodi drwy waredu eiddo ychwanegol, ond yn anochel, bu'n rhaid canolbwyntio mwy ar ddulliau gweithio gwell er mwyn hyrwyddo newid cadarnhaol yn y sefydliad.

Gyda thimau'n cael eu gwasgaru fwyfwy ledled Cymru er mwyn diwallu anghenion busnes, mae'n rhaid i'r broses o gynyddu cynhyrchiant ddibynnu ar amgylcheddau modern, hyblyg a chefnogol a gweithlu mwy hyblyg er mwyn ymateb i heriau Symud Cymru Ymlaen, gan wneud hynny â llai o gyllid.

Er bod rhai patrymau gweithio hyblyg wedi'u cyflwyno oddi mewn i Lywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd, roedd gwaith ymchwil wedi nodi bod cyfle i gynyddu cwmpas a graddfa'r patrymau hyn. Cynhaliwyd cynllun peilot o'r pecyn gwell ar gyfer staff yn swyddfa Merthyr Tudful rhwng mis Gorffennaf 2016 a mis Mawrth 2017.

Awgrymodd gwaith ymchwil i ddulliau gweithio hyblyg mewn sefydliadau eraill y gallai manteision busnes, amgylcheddol a phersonol ddeillio o ddulliau gweithio mwy hyblyg oddi mewn i Lywodraeth Cymru:

- lefelau cynhyrchiant uwch
- llai o amser teithio
- llai o ôl troed carbon
- mwy o frwdfrydedd
- cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith
- cadw mwy o staff
- mwy o ddiddordeb
- llai o absenoldeb salwch

Dewiswyd Merthyr Tudful fel safle addas ar gyfer y cynllun peilot gan fod pob un o bedwar maes busnes Llywodraeth Cymru wedi'u lleoli yno, ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn byw o fewn 40 milltir i'r swyddfa, gyda chyfran uwch o staff benywaidd a staff iau yn gweithio yno'n barhaus. Roedd disgwyl i'r proffil demograffig hwn amlygu effeithiau gweithio'n hyblyg ar gydraddoldeb. Hefyd, nodwyd bod gan yr adeilad y priodweddau ffisegol a oedd yn addas i'r broses o gyflwyno'r adnoddau i gefnogi'r newidiadau. Fodd bynnag, yn y pen draw, roedd cyfle da i'r cynllun peilot lwyddo oherwydd y cymorth da a gafodd gan uwch aelodau staff â thimau ym Merthyr.

Er mai anghenion busnes oedd yr ystyriaeth bwysicaf o hyd, roedd y cynllun peilot yn gyfle i staff archwilio dulliau gweithio a oedd yn gwella cynhyrchiant ac yn sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith. Cyflwynwyd adnoddau ffisegol a pholisïau newydd i gefnogi rheolwyr a staff:

- gosodwyd podiau i'w defnyddio fel mannau cyfarfod anffurfiol a gweithio tawel
- cyflwynodd y Lolfa Fusnes dechnolegau newydd amrywiol i helpu pobl i gydweithio a chysylltu â chydweithwyr mewnol a phartneriaid busnes
- cyflwynwyd polisïau AD byrrach a chliriach er mwyn cynorthwyo timau ac anghenion busnes, gan gynnwys atgyfnerthu'r polisi desgiau clir
- roedd cyfle i'r staff drafod y dull a'r patrwm gweithio o'u dewis gyda'u rheolwyr
- datblygwyd Siarteri tîm i ffurfioli'r ymrwymiad i weithio'n hyblyg sy'n addas i'r maes busnes
- cyflwynwyd adnoddau GweithDîm cam 1, gan gynnwys neges llais, cyfleusterau cyfarfod ar-lein a negeseua gwib yn raddol ledled yr ystad er mwyn gwella hyblygrwydd lleoliadol a gwaith tîm gwasgaredig.

Awgrymodd gwerthusiad o'r cynllun peilot ei fod yn llwyddiant mawr, a bod amrywiaeth eang o ddewisiadau gweithio'n hyblyg yn cael eu defnyddio gan y timau.

Aeth y Bwrdd ati i adolygu'r papur argymhellion a oedd yn seiliedig ar werthusiad terfynol y cynllun peilot, ac ym mis Mehefin 2017, cytunodd mewn egwyddor i gyflwyno dulliau gweithio'n hyblyg ledled yr ystad.

"Mae gweithio'n hyblyg wedi rhoi cyfle i mi agor recriwtio i'r holl staff, sicrhau'r gronfa ehangaf o ymgeiswyr a sicrhau bod gan y tîm y sgiliau priodol."

"Mae TGCh ynghyd â'r polisïau gweithio hyblyg newydd wedi ein galluogi i leihau ein teithio a defnyddio mwy o fideogynadledda a chynadledda dros y ffôn gyda chyflenwyr a rhanddeiliaid allanol ... mae arian cyhoeddus yn cael ei wario'n well nag ar deithio."

"Rydyn ni'n agosach at ein rhanddeiliaid, sy'n gwella ein cysylltiadau gwaith ac yn ategu'r syniad o lywodraeth agored."

Hybu **Hyblygrwydd**
**Flexible** First

"Drwy ddefnyddio lleoliadau ac amseroedd gweithio hyblyg, roedd modd i fi ddefnyddio sgiliau ar draws Cymru i gyflawni fy amcanion busnes, bodloni pob math o anghenion personol ac annog amrywiaeth."

"Yn hytrach na chymudo i swyddfa benodol bob dydd, yn aml rydym yn gweithio o'r swyddfa sy'n agosaf i'n cartrefi. Mae hyn yn lleihau'r pwysau ar ein swyddfeydd allweddol fel Caerdydd, ac mae'n lleihau'r milltiroedd cymudo hefyd – gan gefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbons."

## Gwerthusiad terfynol – y prif bwyntiau

**92%** yn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol wrth weithio'n hyblyg

**68%** yn dweud bod gweithio'n hyblyg wedi lleihau eu habsenoldeb salwch

**70%** yn dweud bod y cynllun peilot wedi gwella'r ffordd roedd eu timau'n gweithio ar draws sawl safle

**75%** yn meddwl bod y cynllun peilot wedi gwella cynhyrchiant staff

**77%** yn teimlo bod y cynllun peilot yn eu helpu i gael gwell cydbwysedd rhwng eu llesiant eu hunain a'u hymrwymiadau gwaith

**68%** yn treulio llai o amser yn teithio i'r gwaith

| O | | I |
|---|---|---|
| 36% | Cynnydd yn y defnydd o liniaduron Stratus | 65% |
| 56% | Yn dweud bod gweithio hyblyg yn cael ei weld fel rhywbeth arferol yn eu timau | 77% |
| 57% | Yn teimlo y gallent ddewis gweithio mewn swyddfa sy'n gweddu orau i'r gweithgarwch sydd ar y gweill ganddynt | 72% |
| 46% | Yn dweud eu bod yn gallu cael gafael ar yr offer cyfathrebu angenrheidiol i weithio'n hyblyg | 70% |
| 76% | O reolwyr yn dweud bod gan eu staff y sgiliau cywir i weithio'n hyblyg | 93% |
| 74% | O reolwyr yn teimlo eu bod yn gallu rheoli gweithio'n hyblyg ymysg eu staff | 94% |

# Atodiad 6: Astudiaeth Achos: Sicrhau Effeithlonrwydd a Chyflwyno Ynni Adnewyddadwy

## Cefndir

Er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon ar gyfer yr ystad weinyddol a chyrraedd targedau Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, rydym wedi rhoi sawl cam gweithredu ar waith dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch i'r camau hyn, rydym wedi lleihau allyriadau carbon 50% ers 2010-11.

Rydym wedi llwyddo i wneud hyn drwy fabwysiadu strategaeth carbon bwrpasol sy'n canolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd, manteisio'n llawn ar systemau presennol ac integreiddio arferion cynaliadwyedd wrth gynllunio ac adnewyddu adeiladau.

Mae prosiectau wedi cynnwys:

- archwiliadau ynni manwl
- ail-beiriannu systemau aerdymheru lleol a chanolog
- manteisio'n llawn ar unedau oeri
- ailgynllunio System Rheoli Ynni Adeiladau sy'n ymgorffori targedau ynni lleol
- systemau gwres biomas
- paneli ffotofoltäig.

## Arbed Ynni ar Safleoedd yr Ystad

Yn ein swyddfeydd hŷn, fe wnaethom benderfynu wneud y defnydd gorau o'r systemau a oedd ar waith eisoes. Rydym wedi gwella prosesau dyrys a gwastraffus drwy ailgynllunio mannau ynni dwys fel aerdymheru, systemau dŵr poeth domestig a defnydd o unedau oeri. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth agos â'n contractwr Rheoli Cyfleusterau Caled, gan gynnwys peiriannydd ynni dynodedig, i gynnal adolygiad cynhwysfawr o weithdrefnau presennol a datblygu cynllun gwella sylweddol a gyflwynwyd ar y cyd â'n Strategaeth Lleihau Carbon bum mlynedd 2010/11. Byddwn yn parhau i ystyried arbedion ynni posibl ar gyfer yr ystad yn unol â'n Strategaeth Amgylcheddol 2016-2020.

Mae'r ail ddull gweithredu yn ymwneud ag adeiladu dwy swyddfa newydd ar yr ystad. Yn unol â Chyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau Ewrop (EPBD) a BREAAM, aethom ati i ystyried ac integreiddio atebion carbon isel wrth gynllunio'r adeiladau. Penderfynwyd mai'r dewis gorau yn ein swyddfa newydd yn Aberystwyth oedd cysylltu â system wresogi ardal wedi'i bwydo gan fiomas. Yn ein swyddfa yng Nghyffordd Llandudno, dewiswyd system wresogi biomas sylfaenol. Mae llwyddiant parhaus y gosodiadau hyn wedi dibynnu ar y canlynol:

- gwaith cynnal a chadw rheolaidd gan arbenigwyr
- cysylltiad â System Rheoli Ynni Adeiladau ddeallus sy'n rhybuddio am wallau posibl ar unwaith
- addasu a gwella'r system pan fydd angen.

Mae'r ddwy fethodoleg wedi atgyfnerthu'r ffaith fod cynlluniau syml ynghyd ag arferion gorau'r diwydiant yn gallu sicrhau bod adeiladau yn perfformio'n dda.

Yn ogystal â biomas, cyflwynwyd prosesau adnewyddadwy eraill hefyd. Yng Nghyffordd Llandudno, manteisiwyd ar botensial nodwedd dŵr allanol drwy gynllunio system trin aer bwrpasol sy'n oeri rhagor ar y swyddfa os oes angen. Yn fwy diweddar, rydym wedi gosod 60 panel ffotofoltäig yn ein swyddfa yn Aberystwyth. Mae'r paneli yn darparu brig 18 cilowat (kWp) sy'n gyfystyr â 10% o anghenion trydanol yr adeilad.

## Cynlluniau'r Dyfodol

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n adnewyddu swyddfa Heol Picton yng Nghaerfyrddin. Byddwn yn manteisio ar y cyfle hwn i integreiddio technolegau adnewyddadwy, gwella prosesau rheoli ynni a gwneud mwy o arbedion ynni. Mae'r cynlluniau'n cynnwys y canlynol:

- 70 panel ffotofoltäig â chapasiti 20 kWp
- gosod ystafelloedd cyfarfod â system awyru naturiol
- cladin newydd â gwerthoedd thermig uchel i wella inswleiddio
- ailgynllunio ac integreiddio System Monitro Ynni Adeiladau
- datgomisiynu Aerdymheru ledled y swyddfa ac eithrio yn un ystafell gweinydd a fydd yn gweithio yn ôl y galw yn unig
- system olau LED ddeallus a fydd yn pylu yn ystod y dydd ac yn synhwyro presenoldeb
- cyflwyno system awyru yn ôl y galw yn y gegin er mwyn arbed ynni.

Mae'r cynlluniau ar gyfer 2017-18 yn cynnwys gosod goleuadau LED ar ddau safle arall, gosod mannau gwefru ceir trydanol ledled yr ystad, a negodi tariff trydan sy'n gwbl adnewyddadwy a gwyrdd.

Bydd deddfwriaeth y dyfodol, fel datgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn golygu bod angen i ni fod yn fwy arloesol wrth gynllunio a rheoli ein hystad. Bydd technolegau adnewyddadwy yn bwysig iawn yn y dyfodol, a byddwn yn ystyried systemau o'r fath wrth gynllunio gwaith adnewyddu swyddfeydd, caffael swyddfeydd newydd ac ymgymryd â phrosiectau ailosod, lle bo hynny'n briodol.



# Atodiad 7: Eiddo y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn

| Cyfeiriad | Rheswm dros ei hepgor | Arwynebedd Llawr AMN metr sgwâr | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2015-2016 | Cyfanswm y Gost Flynyddol 2016-2017 |
|---|---|---|---|---|
| 25 Victoria Street, San Steffan | Swyddfa y tu allan i Gymru | 304 | £339,711 | £334,994 |
| 31/33 Heol Casnewydd, Caerdydd | Defnydd Arbenigol | 172 | £158,603 | £155,713 |
| Cyfleuster Arbenigol, Cil-y-coed | Defnydd Arbenigol | N/A | £635,949 | £523,807 |
| Ystad Fasnachu Llandochau, Caerdydd (Uned 22) | Defnydd Arbenigol | 615 | £127,760 | £134,183 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd | Defnydd Arbenigol (traffig) | 763 | £189,657 | £230,799 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Parc Busnes Morfa, Ffordd Sam Pari, Morfa | Defnydd Arbenigol (traffig) | 1,128 | £131,490 | £165,272 |
| Plot 233, Pafiliwn Maes y Sioe Frenhinol, Llanfair-ym-Muallt | Defnydd Arbenigol (Pafiliwn) | 220 | £48,671 | £50,600 |
| Adeiladau Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddin | Defnydd Arbenigol | 452 | £62,053 | £49,592 |